

EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2019

Rhif 81 – Côr Cerdd Dant Bl 6 ac iau (YC/Adran) (dim mwy na 30 mewn nifer)
geiriau – Un Blaned Gron – Robin Llwyd ab Owain



Cainc: Manhyfryd – Gwennant Pyrs (1122)
Nudd Gwyn a Cheinciau Eraill – Cyhoeddiadau Curiad

Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod

UN BLANED GRON

Un blaned gron a'i lliwiau drud,
Un blaned gron a gwyn ei byd.
Pob lliw, pob gwawr, pob enfys gain
A phopeth byw, rhaid gwarchod rhain.

Un blaned gron ac ynddi'n stôr
Mae holl amrywiaeth tir a môr,
Pob morfil glas, pob lindys main,
Pob gloyn byw, rhaid gwarchod rhain.

Ond cerdded wnawn ar wydyr brau,
Mae lliwiau'r enfys yn gwanhau.
Pob ffatri, car a mŵg ein byd
Yn lladd y blodau gwyllt i gyd.

Un blaned gron, cofleidiwn hi,
Un blaned gron, rhaid gwarchod hi.
Pob lliw, pob gwawr, pob enfys gain
A phopeth byw, rhaid gwarchod rhain !